Parth: Gwybodaeth am drafnidiaeth i fyfyrwyr Llandarcy

Annwyl Fyfyriwr,

Croeso i Grŵp Colegau NPTC – Academi Chwaraeon Llandarcy a chroeso cynnes i'r Ysgol Chwaraeon a Gwasanaethau Cyhoeddus. Bydd eich holl ddarlithoedd yn cael eu darparu ar Academi Chwaraeon Llandarcy sydd â chyfleusterau hyfforddi chwaraeon blaenllaw yn y sector ac sydd wedi'i raddio y gorau yng Nghymru! Er mwyn i chi allu mynd i'r campws hwn, bydd angen i chi ddal 'Bws Gwennol y Coleg', a gyflenwir gan First Cymru Buses Ltd; mae hyn yn gadael 'Banana Island' ar y brif ffordd ger Coleg Castell-nedd am 9:00 bob bore (Roman Way ger y camera cyflymder). Bydd y bws wedyn yn eich gollwng yn Llandarcy er mwyn dechrau am 9.15/9:30.

Os yw eich darlithoedd yn dechrau'n hwyrach, bydd angen i chi ddal y gwasanaeth bws X58 o Erddi Fictoria Castell-nedd; mae'r gwasanaeth bws hwn yn rhedeg bob awr.

Wrth adael Llandarcy, bydd angen i chi ddefnyddio eich 'tocyn bws First Cymru' i ddal y gwasanaeth 158 i ddychwelyd i brif safle Coleg Castell-nedd.

Mae'n hanfodol felly i chi brynu eich tocyn bws ar-lein cyn dechrau yn y coleg (bydd taflenni ar gael yn ystod y cyfnod ymrestru):

Gwybodaeth am gostau bws gan FirstCymru:

- *Bydd tocynnau tymor yn £150 neu £100 gyda Fy Ngherdyn Teithio ac yn yr un modd ag eleni byddant yn ddilys ar gyfer teithio ar ddiwrnodau coleg yn unig*
- *Bydd Tocynnau Blwyddyn yn £460 neu £307 gyda Fy Ngherdyn Teithio ac yn ddilys ar gyfer teithio bob dydd yn ystod y flwyddyn academaidd*
- *Mae tocynnau Flexi 5 yn £19 (£3.60 y dydd) neu £13 gyda Fy Ngherdyn Teithio (£2.60 y dydd)*

Yn gywir,

Barry Roberts
Pennaeth Chwaraeon a Gwasanaethau Cyhoeddus